



# TASG YSGRIFENNU ESTYNEDIG

MATEMATEG: ADRODDIAD AR Y PROSIECT TRIN DATA 'STATSCYMRU'.



Ysgrifennwch adroddiad yn eich llyfr mathemateg coch am y prosiect *StatsCymru*.

## Cynulleidfa

- Eich athro mathemateg.

## Math o Destun

- Esbonio.

## Ffurff Ysgrifennu

- Adroddiad.

## MEINI PRAWF LLWYDDIANT

### Beth i'w ysgrifennu?

Rhaid i'r adroddiad gynnwys:

- Cyflwyniad byr am y prosiect;
- Y data rydych wedi'i gasglu;
- O leiaf un diagram amllder cronus;
- Cyfrifiadau ar gyfer o leiaf dau ganolrif / amrediad rhyngchwartel gwahanol;
- Casgliad i egluro beth rydych wedi ei ddarganfod am eich data.

### Sut i ysgrifennu?

- Paragraff cychwynnol i egluro beth yw pwrpas yr ymchwiliad. Mae angen ysgrifennu mewn brawddegau llawn a defnyddio atalnodi addas.
- Y data wedi'i osod allan yn drefnus, gan ddefnyddio tablau neu grwpiau os yn briodol.
- Defnyddio meini prawf llwyddiant y pecyn *Trin Data ac Ystadegaeth 3* i lunio siartiau neu ddiagramau addas.
- Egluro beth yw ystyr unrhyw gyfrifiadau rydych eu cynnwys yn yr adroddiad.
- Paragraffau terfynol i egluro beth rydych wedi ei ddarganfod am eich data. Cofiwch sôn beth fydddech yn ei wneud yn wahanol mewn ymchwiliad tebyg yn y dyfodol.

## ANELU'N UWCH!

Casglwch ddata sydd angen i chi gymharu dau ddiagram amllder cronus gwahanol. Rhestrwch fanteision ac anfanteision y ffyrdd gwahanol o gyflwyno eich data.



## Geirfa Allweddol

Diagram amllder cronus –  
*Cumulative frequency diagram*  
Canolrif – *Median*  
Amrediad rhyngchwartel –  
*Interquartile range*

## Berfau Gorchmynnol

Cyfrifwch  
Enrhifwch  
Amcangyfrifwch  
Eglurwch  
Lluniwch

## Cysyllteiriau

yn gyntaf  
nesaf  
er bod  
oherwydd  
o ganlyniad  
achos  
felly  
ond  
eto  
hefyd